SL(6)268 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 er mwyn mewnosod bandiau treth a chyfraddau treth canrannol diwygiedig ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl.

Mae'r tabl isod yn nodi'r bandiau a'r cyfraddau diwygiedig:

Band treth	***Y gydnabyddiaeth berthnasol***	***Cyfradd ganrannol y dreth***
Band cyfradd sero	Nid mwy na £225,000	0%
Y band treth cyntaf	Mwy na £225,000 ond dim mwy na £400,000	6%
Yr ail fand treth	Mwy na £400,000 ond dim mwy na £750,000	7.5%
Y trydydd band treth	Mwy na £750,000 ond dim mwy na £1,500,000	10%
Y pedwerydd band treth	Mwy na £1,500,000	12%

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn darparu, pan fo'r dyddiad dod i rym ar gyfer trafodiad yn disgyn ar 10 Hydref 2022 neu ar ôl hynny, ond bod contractau wedi'u cyfnewid neu fod y contract hwnnw wedi'i gyflawni'n sylweddol cyn 10 Hydref 2022, y caiff y prynwr ddewis cymhwyso'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol perthnasol a oedd yn eu lle cyn i'r newidiadau ddod i rym (yn amodol ar rai esemptiadau).

Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.

Mae adran 25 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn nodi bod yn rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru dalu symiau a gesglir wrth arfer ei swyddogaethau i Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio bandiau treth a chyfraddau treth canrannol ar gyfer trafodiadau eiddo preswyl sy'n ddarostyngedig i dreth trafodiadau tir a gesglir gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.